# Ein Cynllun ar gyfer Cydraddoldeb yng Nghymru

## Egwyddorion a Nodau ar gyfer 2024-2028

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb ar gyfer pobl ifanc

# Helo

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i Gymru fod yn fwy cyfartal.**

Rydym ni eisiau bod yn lle teg i bawb sy'n byw yma. Rydym ni eisiau gwneud y canlynol:

- **rhoi diwedd ar wahaniaethu** — fel nad yw pobl yn cael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw, eu diwylliant, anabledd neu unrhyw beth.
- **rhoi diwedd ar anfantais** — fel nad yw pobl yn colli allan ar gyfleoedd mewn bywyd oherwydd ble maen nhw'n byw, neu dlodi.

**Tlodi** — pan na all rhywun fforddio eu holl anghenion sylfaenol. Mae byw mewn tlodi yn gwneud bywyd yn anoddach ac yn atal pobl rhag cael cyfleoedd. Nid yw hynny'n gyfartal.

## Mae hwn yn dweud wrthych chi am ein Cynllun Cydraddoldeb.

Mae'n nodi ein hamcanion a'n nodau ar gyfer Cymru fwy cyfartal. **Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl fel nad ydyn ni'n gadael unrhyw beth allan.**



# Cydraddoldeb a Thegwch?

**Mae cydraddoldeb** yn ymwneud â phawb:

- yn cael cyfle cyfartal i wneud y mwyaf o fywyd
- yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen
- yn cael eu trin yn deg.

Mae **Tegwch** yn golygu deall nad ydym ni i gyd yn dechrau o'r un lle. Mae rhai pobl angen mwy o gefnogaeth i gyflawni'r un canlyniad, fel:

- pobl hŷn
- plant a phobl ifanc
- menywod a merched
- pobl anabl
- pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- LHDTC+
- pobl sy'n byw mewn tlodi.

Mae gennym ni gynlluniau yng Nghymru sy'n gwella cydraddoldeb a bywydau pobl. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb hwn yn ychwanegu atynt.

**Er enghraifft: nid yw pawb yn gwisgo esgid gwaith brown maint 9!**

Mae pobl angen pob math o esgidiau gwahanol sy'n ffitio'u traed ac yn eu helpu yn eu bywydau.



# Ynglŷn â’r cynllun hwn

## Cynnwys pobl

Er mwyn ein helpu i ysgrifennu’r cynllun hwn, fe wnaethom weithio gyda grwpiau o weithwyr proffesiynol a grwpiau cydraddoldeb. Fe wnaethom ni hefyd wneud y canlynol:

- ymchwilio i opsiynau i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol
- anfon holiaduron i gael gwybod am anghydraddoldeb yng Nghymru
- gweithio gyda’r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol a’r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol
- cynnal ymgynghoriad gyda chymunedau ar draws Cymru
- astudio tystiolaeth ac adroddiadau
- cynnal gweithdy grŵp ffocws gyda dros 30 o weithwyr proffesiynol

## Cyfreithiau a chynlluniau

Mae’r cynllun hwn wedi’i adeiladu ar y cyfreithiau a’r cynlluniau sydd gennym ni eisoes yng Nghymru, gan gynnwys:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**
- **Dyletswydd Cydraddoldeb Benodol Cymru**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** — pawb yn gweithio gyda’i gilydd i leihau’r effaith mae tlodi yn ei chael ar fywydau pobl
- **Rhaglen Cydlyniant Cymunedol** — mae’r rhaglen hon yn cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd i fyw, gweithio, teimlo’n ddiogel, a chymryd rhan yn eu cymuned.









# Gwneud y gwahaniaeth mwyaf

Rydym ni am i'r cynllun hwn weithio a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Nod y cynllun hwn yw lleihau anghydraddoldebau yn y 7 maes bywyd hyn:

- **addysg** – mwynhau dysgu gydol oes
- **gwaith** – cyfleoedd mewn cyflogaeth, prentisiaethau, a gwirfoddoli
- **safonau byw** – cymryd rhan mewn bywyd cymunedol a lleihau tlodi
- **iechyd** – cael cymorth a gwasanaethau i wella iechyd
- **cymryd rhan** —cymryd rhan a dweud eich dweud
- **cyfiawnder a diogelwch personol** – dod o hyd i help a gwneud Cymru'n lle mwy diogel
- **yr amgylchedd** – diogelu'r amgylchedd mewn ffyrdd sy'n deg i bawb a ddim yn achosi mwy o anghydraddoldebau.

### Hawliau

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bobl eu Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Hawliau Plant.  Mae gan bob plentyn hawliau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- **Erthygl 2 — mae gan bob plentyn yr hawliau sydd wedi'u nodi yn y CCUHP.**
- **Erthygl 12 - mae gan yr holl blant hawl i gael gwrandawiad a'u cymryd o ddifrf.**

Mae'r cynllun hwn wedi'i adeiladu ar hawl pobl i beidio â phrofi gwahaniaethu a chael eu trin yn deg.






# Ein nod hirdymor

**Nod: Mae Cymru yn genedl sy'n seiliedig ar degwch, cynhwysiant, a heb wahaniaethu.**

Mae hyn yn golygu y bydd Cymru'n fan lle:

- mae pawb yn cael eu trin yn deg
- nad oes unrhyw un yn cael ei drin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw
- gall pawb gymryd rhan yn eu cymunedau
- gall pawb gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- mae gan bawb ei hawliau
- mae pawb yn cael cyfleoedd ym mhob rhan o'u bywydau
- mae pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**Ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?**

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**









# Ein nodau

**Nod 1: Rydyn ni eisiau creu Cymru lle gall pawb ffynnu ac rydyn ni'n lleihau tlodi.**

**Ffynnu** — tyfu, gwneud yn dda, a bod yn llwyddiannus.

Byddwn ni yn:

- creu cyfleoedd a chefnogi pobl i ddod o dlodi
- dod o hyd i ffyrdd o gamu i'r adwy yn gyflym a chefnogi pobl cyn iddynt syrthio i dlodi
- gwella'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd incwm isel.

Rydym ni am helpu cymaint â phosibl, ond dim ond gan Lywodraeth y DU y gall rhai pethau fel budd-daliadau a threthi gael eu newid.

**Nod 2: Rydym ni am greu Cymru lle:**

- **mae pawb yn gwybod am hawliau**
- **mae hawliau yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo**
- **mae hawliau wedi'u cynnwys yn ein holl bolisïau a chynlluniau.**

Byddwn ni yn:

- diogelu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau yng Nghymru
- sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau
- sicrhau bod pawb yn gwybod ble i gael cyngor a chefnogaeth ar gyfer eu hawliau
- sicrhau bod hawliau yn cael eu cynnwys yn ein holl bolisïau a chynllunio
- annog awdurdodau lleol a sefydliadau i gynnwys hawliau yn eu gwaith.






# Ein nodau

**Nod 3: Rydym ni am greu Cymru lle:**

- **mae pawb yn gwybod am wasanaethau ac yn gallu eu defnyddio**
- **mae gan bawb yr un gefnogaeth o ansawdd uchel.**

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud am sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu
- mesur sut mae gwasanaethau'n helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau ac yna'n defnyddio'r wybodaeth honno i wella gwasanaethau
- dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio a manteisio i'r eithaf ar wasanaethau
- gweithio i atal gwahaniaethu a sicrhau nad yw staff sy'n gweithio ar draws gwasanaethau yn trin rhai pobl yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw.

**Nod 4: Rydym ni am greu Cymru sy'n ddiogel i bawb a chymryd camau i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb, bwlio, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod gwasanaethau'n deall sut y gall y materion hyn effeithio ar bobl fel eu bod nhw'n eu helpu yn y ffyrdd cywir
- sicrhau y gall pobl gael yr help a'r gefnogaeth gywir i fyw heb ofn a gwella eu hiechyd a'u lles
- datblygu Dangosyddion Cenedlaethol Cymru ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol, fel y gallwn ni gefnogi pobl yn well a gwella ein gwaith.






# Ein nodau

## Nod 5: Rydym ni am greu Cymru lle:

- **mae pawb yn gallu cymryd rhan a llwyddo mewn gwaith**
- **mae pawb yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**
- **mae arweinwyr o gefndiroedd gwahanol ac yn edrych fel y bobl yn ein cymunedau.**

Byddwn ni yn:

- rhoi cyfleoedd i bobl gymryd rhan, cael eu hethol a chynrychioli eu cymunedau, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig
- sicrhau bod systemau'n deg ac yn lleihau anghydraddoldeb
- cynyddu nifer y bobl o wahanol gefndiroedd mewn arweinyddiaeth yn y llywodraeth a meysydd eraill o fywyd
- hyrwyddo llwyddiant arweinwyr ac entrepreneuriaid o bob cymuned fel bod gan bobl fodelau rôl
- cefnogi pobl anabl i gymryd rhan, cael eu hethol a chynrychioli eu cymunedau
- cefnogi pobl mewn tlodi i gymryd rhan, cael eu hethol a chynrychioli eu cymunedau.

**Nodweddion gwarchodedig** — mae rhai pobl yn wynebu mwy o wahaniaethu oherwydd eu hoedran, rhyw, hil, cefndir ethnig, crefydd a rhesymau eraill.

## Nod 6: Rydym ni am greu Cymru lle:

- **mae pawb yn cael cyfleoedd teg a chyfartal ar gyfer cyflogaeth**
- **mae pawb yn cael eu trin yn deg yn y gwaith.**

Byddwn ni yn:

- bod yn enghraifft o gyflogwr teg fel llywodraeth
- sicrhau ein bod yn cyflogi pobl o lawer o wahanol gefndiroedd
- sicrhau nad oes bylchau cyflog a rhoi cyflog cyfartal i bobl sy'n gwneud yr un swydd
- cael gwared ar rwystrau sy'n atal staff rhag cyrraedd eu nodau.



# Ein nodau

**Nod 7: Rydym ni am greu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy mewn ffyrdd sy'n deg i bawb.**

Byddwn ni yn:

- parhau i ddysgu am yr heriau a'r risgiau o symud i sero-net a delio â'n hinsawdd sy'n newid yn gyflym
- sicrhau bod ein gweithredoedd i leihau carbon yn deg ac nad ydynt yn achosi anghydraddoldeb
- helpu pentrefi, trefi a dinasoedd i wneud y penderfyniadau cywir i ddelio â newid yn yr hinsawdd mewn ffyrdd teg
- sicrhau nad yw newidiadau amgylcheddol yn gwneud bywyd yn waeth i bobl sy'n byw mewn tlodi.

**Sero net** — yw pan nad ydym ni'n ychwanegu mwy o garbon i'r atmosffer nag yr ydym ni'n cael gwared arno.

Ydych chi'n cytuno gyda'r 7 nod hyn?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

Pam?









# Egwyddorion

Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar dair egwyddor:

1. Rhaid i bopeth rydym ni'n ei wneud fel llywodraeth helpu i gael gwared ar rwystrau a chefnogi cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys ein holl gynlluniau a pholisïau o hyn ymlaen.

2. Rhaid i bopeth rydym ni'n ei wneud gysylltu â'i gilydd a chynnwys gwrando ar bobl ledled Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae gwahanol gynlluniau a pholisïau yn gweithio, nodi bylchau a dod o hyd i'r ffyrdd gorau o helpu pobl. Mae hwn yn newid cymhleth felly byddwn yn adolygu ein gwaith yn rheolaidd ac yn gwrando ar adborth.

3. Rhaid gwirio popeth i sicrhau nad oes unrhyw fylchau rhwng yr hyn yr ydym ni am ei wneud a'r hyn sy'n digwydd. Bydd hyn yn ein helpu i weld lle mae angen i ni newid ein gwaith neu wneud mwy. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Ydych chi'n meddwl mai dyma'r egwyddorion cywir?

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

Pam?

Ydych chi'n meddwl y bydd yr egwyddorion hyn yn gwella'r cynllun? Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯



# Camau nesaf

Mae Cymru'n tyfu ac yn newid. Bydd y cynllun hwn yn cael ei wirio a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Byddwn yn adrodd ar sut rydym ni'n cyflawni ein hamcanion bob blwyddyn.



## Rhai cwestiynau olaf

**A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â chydraddoldeb a bywyd cymunedol rydych chi'n credu y dylem ni ddelio â nhw?**

Oes ◯ Nac oes ◯ Ddim yn gwybod ◯

**If yes, what?**

**Ydych chi'n credu y bydd y nodau hyn yn helpu i hyrwyddo a chefnogi hawliau dynol yng Nghymru?**

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**

**Ydych chi'n meddwl y bydd y nodau hyn yn ein helpu i ddelio â thlodi?**

Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**

**A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am y cynllun hwn?**

## Diolch am ddarllen hwn

Anfonwch eich atebion at:

Cydraddoldeb Strategol a Phrif Ffrydio
Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

YrIsadranCydraddoldebAHawliauDynol@gov.wales

erbyn: 12 Chwefror 2024

